

MAE DILYN hynt a helynt y Corporal John Griffith Jones o'r 23rd Wisconsin Volunteers wedi nghadw i'n brysur odiaeth eleni. Flwyddyn yn ôl ces wybod mod i wedi ennill Gwbr Goffa y Dr Sam Jones, gwobr a gynigir yn flynyddol i staff y BBC ym Mangor gan Mr Dafydd Griffith Jones, ei fab. O ganlyniad cawn deithio i'r Amerig i olrhain hanes bywyd y Cymro o Benisarwaun a fu'n filwr ym myddin Abraham Lincoln rhwng 1862 ac 1864.

Gweithio yn Archifdy Gwynedd yr oeddwn i ryw ddeg mlynedd yn ôl pan glywais i sôn am John Griffith Jones gyntaf. Roedd John Williams Hughes, Marianglas yn arfer teithio'n fynych i'r Amerig, ac mi roedd o wedi benthycu llythyrau'r milwr oddi ar ryw Mrs James Ferry, cyfnither iddo, yn Milwaukee.

Roedd 'na bedwar ugain o lythyrau i gyd, wedi'u hysgrifennu o faes y gad yn Rhyfel Cartre'r America. Llythyrau difyr, diddorol wedi'u llunio gan wr ifanc annwyl a hoffus ac wedi'u cyfeirio at ei dad, ei fam a'i frodyr ar eu fferm ger Columbus, Wisconsin.

Wedi ymuno â staff y BBC cefais gyfle i wneud rhaglen radio o'u cynnwys a phan glywais am y Wobr Goffa, mi wyddwn i'n burion i ble y carwn i fynd, ac ar ba berwyll!

* * *

ROEDD 'na amryw o ffynonellau da yng Ngwynedd. I swyddfa'r Cofrestrwydd yng Nghaernarfon yr es i gynta, i chwilio am ddyddiad ei enedigaeth. Cael pob cyorth gan y Cofrestrwydd a darganfod fod John wedi'i eni "*Seventh of June 1843 at Efail Tai Croesion, parish of Llanddeiniolen*" (ger pentre Penisarwaun mae'r efail). Ei dad Richard Jones oedd y gof lleol ac roedd Mary ei fam, merch yr Hafod, wyth mlynedd yn hyn na'i gw'r, yn ôl copi o'u tystysgrif priodas ddaeth o St Catherine's House.

Roedd Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr wedi gwneud copi i mi o gart achau i'r teulu gan ei bod hithau'n perthyn iddyn nhw o bell ac yn sgîl y wybodaeth hon bûm yn ymweld â mynwent Llanrug ac â hen ffermdy adfeiliedig Bryn y Fedwen ger Llanrug, cartre taid John.

Ychydig a feddyliais wrth ddringo i mewn i hen simdde fawr Bryn y Fedwen, Llanrug y gwelwn i o fewn ychydig wythnosau, Fryn y Fedwen arall, bum mil o filltiroedd ar draws yr Iwerydd.

A dyma hedfan ddechrau Mawrth, i Cincinnati, y teulu a minnau. Glanio yn Cincinnati a chael croeso mawr gan Ann, cyfnither Sylvia fy mhriod. "*It'll take you five days to acclimatise*" meddai rhywun ar yr awyren -

RHODRI PRYS JONES a'r Hen Gymro fu'n ymladd tros Lincoln



John Griffith Jones ym
Myddin y Gogledd c1863

ac mi wnaeth; y tywydd yn ogystal â'r jet-lag yn chwarae triciau arnom. Saith deg gradd y diwrnod cynta; wyth ar hugain yr ail, ac eira trwm. Huwycyn cwsg yn morthwlyo fy mhen am chwech bob hwyr!

Treulio rhai dyddiau yn Llyfrgell Cincinnati yn darllen "*Y Cyfaill Americanaidd*". Dim ond copiau 1860-64 oedd yno, ond mi ddarganfûm set gyfan yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor wedi dychwelyd, dim ond dau gan llath o'm swyddfa!

Roedd y profiad yn werthfawr serch hynny achos roedd dau gyfaill John Griffith Jones, y Parchedigion (yn ddiweddarach), T E Hughes (cyd-awdur "*Hanes Cymry Minnesota*"), a John Wynne Jones yn ysgrifennu llythyrau at y cylchgrawn yn adrodd eu hanes yn y fyddin.

Yn ddiweddarach, wedi ymweld â'r State Historical Society, 816 State St, Madison (prifddinas Wisconsin), cawsom hyd i lawer rhagor o lythyrau gan aelodau o'r un gatrawd, ac wedi ffotostatio'n helaeth bu Sylvia wrthi'n ddyfal drwy'r misoedd diwethaf yn gwneud copiau taclus, hawdd i'w darllen ohonyn nhw.

* * *

YMWELD â meysydd y brwydro i gyd, a bu defnydd helaeth o'r camera a'r Chevrolet. Yn un o'i lythyrau mae John yn sôn am losgi pont rheilffordd yn perthyn i'r gelyn. Cawsom hyd i honno, a chael bod olion y fflamau yn dal arni - er 1863!

Nashville, Memphis i lawr afon Mississippi i Vicksburg ac yna i New Orleans lle gwelais

mewn Amgueddfa un o'r llyfrau mwy erchyll a welais erioed - cyfarwyddiadau manwl gyda diagramau lu pwrpasol yn cyfarwyddo meddygon ynglŷn â'r dull gorau i dorri ymaith goesau a breichiau ar faes y gad.

Mae na gymaint wedi'i ysgrifennu am y Rhyfel Cartre, mwy nag am unrhyw bwnc arall yn yr iaith Saesneg heblaw Shakespeare, medde nhw, nes ei gwneud hi'n hawdd iawn olrhain y symudiadau milwrol sy'n gefndir i lythyrau John. Ymladdodd yn ymgyrch enwoc'r Cadfridogion Ulysses S Grant a W T Sherman, sef yr ymosodiad ar Vicksburg yn haf 1863.

Yno yn Vicksburg, ar blac anferth yn y State Military Park, mae enwau'r hogia yn Co. G., ac yn eu mysg Edward Parry, Evan Richards, John Jones "y teiliwr", a William Roberts, John G Jones, Thomas E Hughes, John Wynne Jones, aelodau o genhedlaeth o Gymry Cymraeg a aeth bellach yn angof yn eu hen wlad, ac a laddwyd yn eu canoedd yn Rhyfel Cartre U.D.A.

Wedi gadael New Orleans, lle bu'r 23rd yn gwersylla wedi concwest Vicksburg, mi grwydron ni i fyny Afon Goch, y Red River, lle buon nhw'n ymladd yn ddiweddarach dan arweiniad y Cadfridog Nathaniel Banks. Cyfarfod â'r Athro David Edmonds, awdur llyfr am y brwydro a soniodd yn un o'i benodau am "John Griffith Jones writing in the strange consonantladen language of Wales...."

Chware teg, bu'r Athro yn garedig tu hwnt wrthym, a chefais gyfle cyn ymadael â'i dŷ, a fuasai'n ysbyty milwrol yn ystod y Rhyfel Cartref, i'w argyhoeddi fod 'w' ac 'y' yn llafariad yn ein hiaith ni!

* * *

TROI am y gogledd wedyn; mil o filltiroedd i Wisconsin. Ac wedi cyrraedd sefyll yng nghanol mynwent Bethel ger Columbus, yn methu a chredu mod i yn yr Amerig o gwbl. Mi fuasai yn y lle hwn gymuned o ryw ddau gant a hanner o Gymry, o 1843 ymlaen, a'r cyfan ohonyn nhw bron o Arfon. "Er cof am Owen B Jones, Bryn y Fedwen, Columbus" (Ewythr John). "Er cof am John F Williams, Prysgol" - mewn carafan ym Mhrysgol, Llanrug (cartre William Owen yr emynydd

gynt) y bum i'n byw pan ddes i weithio i Gaernarfon gynta.

A'r mwyaf dirdynnol "Er cof am Elen, pump oed, a gladdwyd ym mynwent Pentir, Gogledd Cymru" a gweddill y teulu yma, mor bell.

Ac enwau'r ffermydd wedyn, i gyd wedi'u cludo ar draws fôr Iwerydd. Lledwigan (Llangefni), Hafod Gynfor (Nant Peris), Traian (Groeslon), Cwmcloch (Beddgelert). Fe groniclir hanes yr ymfudwyr i gyd, bron, yn llyfr John R Jones, "*Hanes Eglwysi Cymraeg Columbus Wisconsin*" a gyhoeddwyd yn Utica yn 1898.

"*What happened to the Welsh Community,*" gofynnais i Margaret Jones, a fu'n ein tywys drwy'r fro.

"*Waal*", meddai hithau, "*I guess we educated the kids, and they just left.*" Hen stori ymhlith y Cymry.

Yn Columbus y digwyddodd un o'r pethau rhyfeddaf ddaeth i'm profiad erioed. Clywed am hen wraig oedd yn hanu o deulu Cymraeg, a mynd i'w thŷ. Hithau yn ffwdrus ei meddwl, yn nawdeg a dwy oed. Yr unig ymateb ges i oedd pan ofynnais i "Ydych chi'n siarad Cymraeg?" oedd "Ydw!"

A dyna'r cwbl, ond fe aeth ei mab Kenneth i focs a thynno llyfr ohono. Albwm, a'i lund o luniau teuluoel yn cynnwys teulu John Griffith Jones i gyd. Ei dad a'i fam, yn eu galar o'i golli yn syllu'n drist o ffotograffau 'dagerrotype'. Ei frodyr a'u teuluoedd niferus - a llun o wr canol oed, a gwaig ifanc.

"*Mae'n rhaid mai David ydi hwn, yr ewythr a arhosodd adre*", meddwn i, "*roedd gwaig hwn yn llawer fengach na fo.*" Tynnais y llun yn ofalus o blygiadau'r llyfr. Ar ei gefn "*Humphries & Co. Caernarvon.*"

* * *

O COLUMBUS i Milwaukee, ac aros yn nhŷ perchennog y llythyrau, Mrs Phyllis Ferry. Hithau ynghanol problemau "*and to cap it all, ma washing machine's bust.*" Mi lwyddais i drwsio'r peiriant, a daethom yn gyfeillion mawr ar unwaith. Fedrwn i wneud dim o'i le wedyn! A phan ofynnais am gael gweld y llythyrau i wneud copi manwl-gywir ohonyn nhw mi ddywedodd Phyl

"*Gee Rhodri, why don't you just take those letters home to Wales with you....*"

Syfrdandod mawr. Y trysorau hyn, yn ôl i Gymru? Fedrwn i ddim credu'r peth. "*But....*" Ond doedd dim 'but' i fod, ac mae'r llythyrau ar hyn o brod, ac mae'r ddiogel yn y Llyfrgell Genedlaethol a minnau wrthi'n ddyfal yn troi'r holl wybodaeth sy' gen i yn llyfr ar fywyd eu hawdur.